# EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS DYFFRYN BANW

## Gorff. 12 a 13, 2019

**BARDDONIAETH**

1. Cystadleuaeth y Gadair: Cerdd gaeth neu rydd ar y testun **'Ofn'** heb fod dros 150 o linellau.
   Gwobr: Cadair yr Eisteddfod a £150

2. Cywydd: 'Pont'
   Gwobr: £40

3.. Englyn: 'Glaw'
   Gwobr: £40 (£20 o wobr Goffa Gwilym Rhys)

4. Englyn ysgafn: 'Glampio'
   Gwobr: £30

5. Telyneg: 'Perthyn'
   Gwobr: £30

6. Soned: 'Bro'
   Gwobr: £30 (£20 o wobr Goffa Llawenog (Henry Hughes))

7. Limrig: 'Fe gefais i gam yn y Steddfod...'
   Gwobr: £30

8. 3 Thriban: 'Beddargraff'
   Gwobr: £30 (£10 o wobr Goffa Ifor Llefenni)

9. Carol Nadolig
   Gwobr: £30

10. Cerdd Ysgafn: 'Mewn Caffi'
    Gwobr: £30

## RHYDDIAITH

11, Cyfrol o waith creadigol ar y thema 'Gororau'

Gwobr: Coron yr Eisteddfod a £150

12. Stori Fer: 'Disgwyl'

Gwobr: £30 (£25 o wobr Goffa Dr D. Tecwyn Lloyd gan Gôr Glyndwr)

13. Tair chwedl wedi eu cyfyngu i ardal benodol

Gwobr: £30

14. Portread o unrhyw berson

Gwobr: £30 (£25 o wobr Goffa Dr D. Tecwyn Lloyd gan Gôr Glyndwr)

15. Casgliad ar ffurf llyfr lloffion fydd yn gofnod o adfeilion unrhyw fro.

Gwobr: £30 (£15 o wobr Goffa William Jones, Dolhywel, Llangadfan)

16. Ysgrif: 'Hunanoldeb'

Gwobr: £30 (£15 o wobr Goffa Ifor Llefenni)

## ADRAN IEUENCTID

17. Dan 25: Casgliad o waith gwreiddiol mewn mwy nac un cyfrwng.

Gwobr: Tlws a £75

## ADRAN Y DYSGWYR

### OEDOLION: CYSTADLAETHAU LLENYDDOL

37. Tlws y Dysgwyr: Agored. 2 ddarn o waith gwreiddiol mewn ffurfiau gwahanol e.e. llythyr, stori, ysgrif, cerdd, ymson, deialog, dyddiadur, adolygiad (o lyfr/CD/rhaglen teledu), blog – ar y thema ***Breuddwyd*** neu ***Gobaith / Gobeithion.***
**a hefyd**
Sgwrs rhwng y dysgwr/wraig â siaradwr Cymraeg rhugl wedi'i recordio. Dim mwy na 5 munud. Y dysgwr/wraig i arwain y sgwrs.

Gwobr: Tlws a £60

38. Lefel Mynediad: Darn o waith hyd at 50 o eiriau, Thema: Fi Fy Hun

Gwobrau : £20, £15, £10

39. Lefel Sylfaen: Darn o waith hyd at 100 o eiriau, Thema: Diddordebau

Gwobrau: £20, £15, £10

40. Lefel Canolradd: Darn o waith hyd at 150 o eiriau, Thema: Sgwrs Dros Baned (ar ffurf deialog)

Gwobrau: £20, £15, £10

41. Gwaith Grŵp/Unigolyn (Agored): Thema: Pwnc Llosg

Gwobrau: £20, £15, £10

## AMODAU ARBENNIG ADRAN LLENYDDIAETH

1. Rhaid i bob ymgeisydd, wrth anfon y cyfansoddiad, gynnwys enw priodol, cyfeiriad a rhif y gystadleuaeth dan sêl mewn amlen â ffugenw a rhif y gystadleuaeth ar y blaen.
2. Ni dderbynnir unrhyw waith a wobrwywyd o'r blaen..
3. Atelir y wobr ariannol yng nghystadlaethau'r Gadair, y Goron a'r Medalau oni fydd y buddugol neu ei g/chynnrychiolydd yn bresennol.
4. Yr holl gyfansoddiadau i'w teipio neu eu hysgrifennu ar un ochr y ddalen yn unig
5. Bydd hawlfraint yr holl gyfansoddiadau buddugol yn yr adran Llên yn eiddo Cymrodoriaeth Cadair Powys yn unig am dri mis o ddyddiad yr Eisteddfod.
6. Rhaid i'r cyfansoddiadau ynghyd â'r ffurflen gystadlu gyrraedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên a Llefaru erbyn y 1af o Fai 2019
7. Dychwelir y cyfansoddiadau anfuddugol i'r ymgeiswyr sy'n anfon amdanynt i'r Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn y 1af o Gorffennaf 2019 os ceir ffugenw, rhif ac enw'r gystadleuaeth gyda thâl cludiant post.
8. Rhaid i'r cyfansoddiadau i gyd fod yn yr iaith Gymraeg.
9. Cynhelir Pabell Lên yn ystod yr Eisteddfod i drafod gwaith y buddugwyr yn y prif gystadlaethau llenyddol.
10. Gweler hefyd Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod.